# Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Carrog 202 .

Mae Cyngor Sir Ddinbych, wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (3), 4, 25, 32, 35, 36, 45, 46, 46A, 47, 49, 51, 52, 53, 124(1) a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ddinbych) 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ac yn unol â Rhan III, Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y __/___/202 a gellir ei enwi'n "Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Carrog 202

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol ar gyfer dehongli unrhyw Ddeddf Seneddol ac fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, at ddibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno, ac fel pe bai'r Gorchmynion a ddirymwyd gan y Gorchymyn hwn yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd.

3. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi'u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac os oes gwaharddiad neu gyfyngiad wedi'i osod, amrywio neu'i ddirymu gan y Gorchymyn hwn sy'n gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn trechu.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio arfaethedig - Carrog

4. Os yw llys, Llywodraeth Cymru neu'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd y datganiad hwnnw yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

5. Amrywir Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 (a elwir wedi hyn "y Prif Orchymyn") drwy hyn fel a ganlyn:
   i. dilëir y cynlluniau a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn o'r Prif Orchymyn ac fe'u disodlir â'r cynlluniau sydd wedi'u hatodi i'r Gorchymyn hwn a'u llofnodi mewn cysylltiad ag ef, ac wedi'u rhestru yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, a gaiff felly drwy hyn eu hychwanegu at atodlenni 1 a 2 i'r Prif Orchymyn a'u hymgorffori ynddynt;
   ii. Seliwyd y Gorchymyn hwn a'r Atodlenni sydd ynghlwm gyda Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR DDINBYCH**

**ar hyn**

**Ar y dydd o 202 )**

**yng ngŵydd:- )**

**Llofnodwr Awdurdodedig**

# Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio arfaethedig - Carrog

Hon yw'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yng "Ngorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Carrog 202 a grybwyllwyd eisoes.

## ATODLEN 1

Dilëir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol o Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021.

AN165

Hon yw'r Atodlen 2 y cyfeirir ati yng "Ngorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Carrog 202 a grybwyllwyd eisoes.

## ATODLEN 2

Ychwanegir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol â'u hymgorffori yn atodlenni 1 a 2 Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021.

AN164 ac AN165a

**Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio arfaethedig - Carrog**